

# Cefnogi Gofalwyr Ifanc

## Arweiniad i staff addysg

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Young Carers
Gofalwyr Ifanc

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU

## Cyflwyniad

Pwrpas y llyfryn hwn ar gyfer athrawon a staff ysgolion yw eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau y mae plant a phobl ifanc a chanddynt gyfrifoldebau gofalu yn eu hwynebu a sut orau y gellir eu cefnogi mewn amgylchedd addysgol. Bydd hefyd yn cyflwyno model y cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer gofalwyr ifanc a beth all hyn ei olygu i'ch ysgol a'ch dysgwyr.

## Pwy yw Gofalwyr Ifanc?

Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc hyd at 25 oed ac iau sy'n darparu gofal di-dâl i aelod o'r teulu neu gyfaill a chanddynt gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, anabledd neu gaethineb.

Mae gofalwyr ifanc yn gwneud nifer o weithgareddau gwahanol allai gynnwys:



- Coginio, glanhau a thasgau domestig eraill
- Cefnogaeth emosiynol, gorfforol ac ymarferol
- Casglu, storio a rhoi meddyginiaethau
- Rheoli cyllid y teulu
- Gofalu am frodyr neu chwiorydd

Mae miloedd o bobl ifanc ledled Cymru sy'n darparu gofal ar gyfer aelodau'r teulu, cymdogion neu gyfeillion. Yn ôl cyfrifiad 2021 mae 8,230 o ofalwyr ifanc (dan 16 oed) a 14,320 oedolion ifanc sy'n ofalwyr (16-24 oed) yng Nghymru. Canfu arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fod gan bron i 1 disgybl o bob 6 yn ysgolion uwchradd Cymru gyfrifoldebau gofalu.



## Model y Cerdyn Adnabod Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc

Mae gofalwyr ifanc wedi sôn am sawl rheswm dros gael cerdyn adnabod, gan gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau a rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i'w rôl
- Rhoi gwybod i bobl am eu cyfrifoldebau gofalu mewn ffordd gynnil heb orfod rhannu manylion personol dro ar ôl tro
- Rhoi'r hyder i ofyn am help neu ddealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol

Mae'r Cerdyn YCID bellach wedi'i lansio ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a gall edrych yn wahanol yn dibynnu arb a ardal y mae'r gofalwyr ifanc yn byw ynddi. Fodd bynnag, bydd gan bob cerdyn logo cerdyn adnabod cenedlaethol a ddyluniwyd gan ddau ofalwr ifanc.

Bydd hefyd yn cynnwys:

- Llun o'r gofalydd ifanc
- Eu henw llawn
- Eu dyddiad geni
- Manylion yr awdurdod lleol a roddodd y cerdyn

Young Carers Gofalwyr Ifanc

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cerdyn adnabod ac amryw o adnoddau cefnogol drwy ymweld â carers.org/YCID



# Adnabod a chefnogi Gofalwyr Ifanc mewn cyd-destun addysgol

Mae athrawon a staff ysgolion mewn sefyllfa unigryw i adnabod plant a phobl ifanc all fod yn ofalwyr ifanc. Mae'r ysgol yn gallu bod yn un o'r ychydig adegau pan mae gofalydd ifanc yn gadael eu cyfrifoldeb gofalu, a gall athrawon ddatblygu perthnasoedd cefnogol gyda dysgwyr.

Ynghyd â'u cyfrifoldebau addysgol a bugeiliol arferol, gall athrawon a staff eraill yn yr ysgol chwarae rôl hefyd yn:

- Adnabod plant sy'n ofalwyr ifanc
- Cefnogi eu hanghenion addysgol o ran eu cyfrifoldebau gofalu
- Cyfeirio gofalwyr ifanc at eu hawdurdod lleol neu wasanaethau gofalwyr i gael cefnogaeth ychwanegol



## Rhestr wirio

- Darllenwch drwy rai o'r arferion addysg effeithiol a amlygir yn adolygiad thematig Estyn o ofalwyr ifanc
- Lawrlwythwch ein casgliad o adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau gwersi, taflenni gwaith a gweithgareddau eraill i wneud eich ysgol yn ofalwyr-ymwybodol.
- Darllenwch am hawliau gofalwyr ifanc a sut i gefnogi eu hiechyd a llesiant meddyliol
- Penodwch 'Arweinydd Gofalwyr' neu 'Eiriolydd Gofalwyr' i gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod eich ysgol yn ofalwyr-ymwybodol a bod eich polisïau a gweithdrefnau yn cydnabod a chefnogi'r heriau unigryw sy'n wynebu gofalwyr ifanc
- Hyrwyddwch ymwybyddiaeth o ofalwyr yn eich ysgol trwy arddangos posteri a gwybodaeth berthnasol
- Cysylltwch â'ch awdurdod lleol a chonsortia addysg fydd yn gallu cynnig adnoddau, syniadau a chyngor ar sut i wneud eich ysgol yn fwy gofalwyr-ymwybodol. Bydd llawer o wasanaethau gofalwyr lleol yn darparu hyfforddiant, adnoddau neu gefnogaeth allgymorth i weithio gyda'ch ysgol ac yn uniongyrchol gyda gofalwyr ifanc
- Gwyliwch ein hanimeiddiad byr ar gefnogi'r YCID mewn amgylchedd addysg.



## Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gweithio i drawsnewid bywydau gofalwyr di-dâl.

Mae'n partneru gyda'i rwydwaith o sefydliadau gofalwyr lleol i ddarparu cyllid a chefnogaeth, cyflwyno rhaglenni arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chodi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar bolisi. Gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yw bod gofalwyr di-dâl yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gyda mynediad at gymorth, cyngor ac adnoddau i'w galluogi i fyw bywydau bodlon.

Rydym yn gweithio gyda Phartneriaid Rhwydwaith – gwasanaethau lleol sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i ofalwyr – gan wneud yn fawr o'r profiad, arbenigedd ac arloesiadau y gall pob un ohonom eu cynnig.

## Cysylltwch â ni


wales@carers.org

0300 772 9702

Carers.org/wales

@CarersTrustWal



Ariannwyd y canllaw hwn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r Prosiect Cerdyn Adnabod Cenedlaethol i Ofalwyr Ifanc.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


Young Carers Gofalwyr Ifanc

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR CYMRU